

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

TEITHIO LLESOL MERTHYR TUDFUL

Mae'r hysbysiad hwn wedi cael ei ysgrifennu yn unol
â'r Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data a
deddfwriaeth berthnasol

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards

Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop/Maria Litchfield

Swyddog Datgelu a Chofnodi Data

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47
8AN data.protection@merthyr.gov.uk, 01685
725000

GWYBODAETH BWYSIG

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut yr ydym yn casglu a phrosesu data personol yn ein ymgynghoriadau Teithio Llesol. Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Commonplace Digital Ltd wedi datblygu platfform ymgynghoriad ar-lein sydd wedi ei greu er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol Cymru ag ymgynghoriadau cyhoeddus ar gyfer gwella llwybrau teithio llesol. Bydd y platfform hwn yn cynorthwyo'r Cyngor i rydheu ein cyfrifoldebau i fapio, cynllunio, gwella a hyrwyddo'r cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, ledled ein bwrdeistref.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw a defnyddio'r wybodaeth personol a gasglwn. O dan ddeddfwriaeth diogelu data mae'n ofynnol ein bod yn eich hysbysu o'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os wnawn hynny byddwn yn sicrhau fod yna gopi wedi ei ddiweddarau ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn gyda'n [Polisi Safonau Preifatrwydd](#) a hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein prosesu data a gellir ei weld ar ein gwefan.

PWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n rheoli ac yn gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanant ar ein [gwefan](#).

Ar gyfer bwriadau ymgynghoriadau Teithio Llesol, mae'r Adran Hawliau Tramwy yn gyfrifol am brosesu data personol.

Rydym wedi apwyntio Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef drwy ddefnyddio'r manylion ar frig yr hysbysiad hwn.

PA DDATA PERSONOL SYDD YN CAEL EI GASGLU

Yn y platfform ymgynghorol, Teithio Llesol, gallwn gasglu, defnyddio neu drosglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch. Mae'r ymatebion yn anhysbys ond byddwn yn gofyn y categorïau canlynol o ddata personol:

- Disgrifyddion personol fel eich enw a'ch cyfeiriad e-bost, os hoffech i ni gysylltu â chi am eich cynlluniau Teithio Llesol.
- Disgrifyddion personol ychwanegol fel eich cyfeiriad, yn benodol, eich cod post. Mae'r wybodaeth hon yn gymorth i ni ddynodi pa ffyrdd neu lwybrau sydd neu nad sydd wedi ymateb. Mae hefyd yn gymorth i ni ddynodi pa mor bell mae ymwelwyr yn barod i deithio i ac oddi fewn i'r ardal.
- Eich dyddiad geni. Mae'r wybodaeth hon yn gymorth i ni ddynodi faint o breswylwyr yr ydym wedi eu cyrraedd oddi fewn i grŵp oed penodol gan sicrhau ein bod yn targedu pob cynulleidfa.
- Eich rhywedd. Mae'r data hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd nifer gytbwys o unigolion yn ystod ymgynghoriadau.
- Data cyflogaeth fel os ydych yn gyflogedig neu'n ddi-waith er mwyn deall os yw pobl yn cerdded neu'n seiclo i'r gwaith.
- Rydym hefyd yn casglu data personol sy'n gysylltiedig â'ch ffordd o fyw, oddi fewn i adran sylwadau ychwanegol y platfform ymgysylltiad. Bydd y data hwn yn ymwneud â'ch cysylltiad â Merthyr Tudful gan gynnwys os ydych yn breswlydd neu'n ymwelydd neu os ydych yn gweithio yn yr ardal. Mae hyn yn gymorth i ni ddeall cyd-destun eich sylwadau.
- Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth ynghylch y math o drafnidiaeth yr ydych yn ei ffafrio; os ydych yn cerdded, seiclo, gyrru neu' defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio er mwyn datblygu'n dealltwriaeth o sut allwn wella symudedd a chysylltedd yn y fwrdeistref. Hefyd, rydym yn defnyddio'r data hwn er mwyn gwella'n dealltwriaeth o anghenion y gymuned.

Mae'r data'n cael ei gasglu er mwyn dynodi anghenion y gymuned a byd yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer cyfleoedd ariannu a fydd yn gwella'n llwybrau teithio llesol.

SUT YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL

Mae'ch data prsonol yn cael ei gasglu drwy ddefnyddio platffoprm ymgynghorol ar-lein o'r enw Common Place. Mae'n system sy'n cael ei chynnal yn allanol gan drydydd parti, Commonplace Digital Ltd, sydd hefyd yn rheoli'r data. Am ragor o wybodaeth, darllenwch ei hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar ei [gwefan](#).

Unwaith y bydd y data yn cael ei gasglu, bydd yr Adran yn defnyddio'ch ymatebion er mwyn dynodi pa lwybrau ddylai gael eu blaenoriaethu er mwyn. Eu gwella neu eu hadfer. Bydd y data a fydd yn cael ei gasglu yn cynorthwyo ceisiadau ariannu a fydd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth am broses ariannu Llywodraeth Cymru, darllenwch y wybodaeth preifatrwydd sydd ar gael ar ei [gwefan](https://gov.wales/welsh-government-privacy-notice). <<https://gov.wales/welsh-government-privacy-notice>>

SAIL GYFREITHIOL PROSESU

Dim ond pan fydd y ddeddfwriaeth diogelu data'n caniatáu hynny y byddwn yn defnyddio'ch data personol. Bydd hyn yn cynnwys darpariaethau a osodwyd o dan [Reoliadau GDPR](#) a ble y bo'n berthnasol [Ddeddf Diogelu Data 2018](#). Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth personol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Yn unol ag Erthygl 6(c), sy'n berthnasol i'n goblygiadau cyfreithiol a ddarperir gan Ddeddf Teithio Llesol Cymru (2013.)

Daw awdurdod cyfreithiol pellach o Reoliadau Gorchmynion Traffig (Gweithdrefn) Awdurdodau Lleol (Cymru a Lloegr) 1996 a Deddf Priffyrdd 1980.

Yn unol ag Erthygl 6(e), sy'n berthnasol i brosesu sy'n angenrheidiol i berfformio tasg er budd y cyhoedd neu er mwyn i'r rheolwr ymarfer ei awdurdod swyddogol. Mae hyn yn cynnwys Canllawiau Llywodraeth Cymru, '[Canllawiau Teithio Llesol - Chwefror 2020](#)' a [dogfennaeth](#) ychwanegol.

Gallwn hefyd brosesu eich data personol lle y mae'n angenrheidiol gwneud hynny er budd cyfreithiol (neu drydydd parti) a lle nad yw'ch buddiannau neu'ch hawliau sylfaenol yn trechu'r buddiannau hynny.

RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol ag adrannau eraill o'r Cyngor sydd yn rhan o reoli Cynllun Teithio Llesol y Cyngor yn y Cyngor. Bydd hyn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein goblygiadau a darparu'r gefnogaeth ofynnol i chi.

Byddwn hefyd yn rhannu data â Llywodraeth Cymru er mwyn i ni gael mynediad i arian Teithio Llesol a fydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn gwella llwybrau cerdded a seiclo, ledled y fwrdeistref mewn ymateb i'r ymgynghoriadau Teithio Llesol. Mae hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gael ar ei [gwefan](#).

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i [Ardal Economaidd Ewrop](#). Os byddwn ni, yna byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag sy'n bosibl. Os byddwn ni, yna gallwch ddisgwyl cyfradd debyg o ddiogelu mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N CADW EICH DATA PERSONOL

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol am mor hir ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer, yn cynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifeg neu adrodd yn ôl. Bydd y data personol a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei gadw am 6 mlynedd gan y bydd yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar ein ffurflenni ceisiadau ariannol.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein [gwefan \(www.merthyr.gov.uk\)](#).

SUT YDYM YN CADW'CH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi gosod gweithdrefnau diogelu priodol mewn lle i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, cael ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu'r mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogwyr hynny sydd ag angen busnes i wybod. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ôl ein cyfarwyddyd ni ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorcyfraith o ran diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o amheuaeth o dorcyfraith ble y bo'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych yr hawl o dan gyfraith diogelu data mewn perthynas â'ch data personol i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi, mae manylion am yr hawliau hyn yn yr hysbysiad [preifatrwydd llawn](#).

MANYLION PELLACH

Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddog Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru,) 2il Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 0330 414 6421

Os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth am sut ydym ni'n prosesu eich data personol gan gynnwys data diogelwch, cadw data, hawliau unigol edrychwch ar ein [polisi preifatrwydd cyflawn](#). Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth [wefan](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, www.ico.org.uk.